# Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd 2020-2025

## Crynodeb o'r pum mlynedd gyntaf o gyflawni



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Adfer Mawndir Cymru
Wales Peatland Action

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

2025 – Fersiwn Gymraeg / Welsh version

# Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

# Uchafbwyntiau 2020-25

**>3600ha** o fawndir ar y llwybr tuag at adferiad*

Rheoli gwariant o £11.6m

Adfer yn uniongyrchol ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ac wedi ariannu tua 20 o bartneriaid allanol

Datblygu'r sector contractio a chyfleoedd ar gyfer swyddi gwyrdd




Lansio Grantiau Adfer Mawndir

Cofnodi gwelliannau o ran bioamrywiaeth ar safleoedd wedi'u hadfer

Sefydlu strwythur llywodraethu cryf

Cynhyrchu rhestr termau ar adfer mawndir

Lansio Map Mawndiroedd Cymru




Sefydlu grwpiau partneriaeth strategol Cymru gyfan



*Mae'r ffigurau a adroddwyd yn llawer uwch os yn cynnwys clirio coed

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........................................................ 4

2. Gwerthusiad cyffredinol a chasgliadau ........................................................ 6

3. Y camau nesaf ........................................................ 7




# 1. Cyflwyniad

Mewn dogfen a baratowyd ar gyfer COP28, nodwyd y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (RhWGF) fel un o'r 'hyrwyddwyr hinsawdd lefel uchel' ym Mlwyddlyfr Gweithredu ar Newid Hinsawdd yn Fyd-eang 2023. Mae hyn yn adlewyrchu'r sylw y mae'r Rhaglen wedi'i ddenu, yng Nghymru a thu hwnt, fel enghraifft o ateb cenedlaethol strategol ar sail natur i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Cydnabuwyd hyn ymhellach yn yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, a oedd yn ystyried llwyddiannau cynnar y Rhaglen yn erbyn y gofynion cyflawni i fodloni ymrwymiadau 30 erbyn 30 a datgarboneiddio. Mae'r Rhaglen yn un strategol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru (LlC) ac a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r adolygiad pum mlynedd o gynnydd y Rhaglen yn erbyn y Cynllun Gweithredu 2020-25. At ei gilydd, mae'r adolygiad yn dangos bod y Rhaglen wedi bod yn hynod effeithiol yn ystod ei phum mlynedd gyntaf. Mae rhai o'r uchafbwyntiau'n cynnwys y canlynol:

**Uchafbwyntiau'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd ar gyfer 2020-25:**

- Sefydlwyd y Rhaglen a'r tymor adfer cyntaf yn ystod pandemig COVID-19 ac, eto, llwyddwyd i gyflawni targedau Blwyddyn 1.
- Adfer >3,600ha o fawndir, sydd bellach ar lwybr tuag at adferiad, gan ragori ar y targed flwyddyn yn gynnar yn 2024.
- Diogelu 2.2 miliwn o dunelli o garbon (yn seiliedig ar raddfa'r gweithgarwch adfer a chynnwys carbon amcangyfrifedig cyfartalog priddoedd mawn Cymru).
- Sefydlu tîm o staff a strwythur llywodraethu pwrpasol ar gyfer y Rhaglen, ac yna cynllunio strwythur staffio i baratoi ar gyfer rhaglen gyflawni ar raddfa fwy.
- Sefydlu grwpiau partneriaeth strategol Cymru gyfan i fynd i'r afael â materion sectoraidd pwysig megis Strategaeth, Tystiolaeth, Monitro, ac arferion gorau Ymarferwyr.
- Rheoli £11.6 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru i ehangu a datblygu adferiad mawndiroedd ledled Cymru.
- Cefnogi datblygiad a chyhoeddi Map Mawndir Cymru ar-lein, sydd â haenau data, gan gynnwys haen adrodd ar weithgarwch mawndir, sy'n darparu mynediad ac atebolrwydd cyhoeddus.
- Adrodd yn flynyddol ar weithgarwch adfer gan bartneriaid a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn adroddiadau blynyddol y Rhaglen ar gyfer blynyddoedd 1, 2, 3, 4 a 5.
- Cofnodi enillion bioamrywiaeth ar safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sydd wedi'u hadfer, megis llygod dwr yn symud i safle sydd newydd ei ail-wlychu yng Ngharn Fflur (Coedwig Tywi).
- Nodi tystiolaeth o fawndir a adferwyd ac a ail-wlychwyd gan y Rhaglen yn gweithredu fel rhwystr tân yn 2025 yn ardal Coedwig Tywi.
- Lansio grantiau cystadleuol allanol agored, cynnal gweminarau canllaw rhad ac am ddim, a chael oddeutu 20 o bartneriaid allanol i ymwneud ag adfer mawndiroedd.
- Datblygu dull pragmatig effeithiol o nodi blaenoriaethau ar gyfer adfer mawn mewn ardaloedd sydd wedi'u coedwigo ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.
- Dod â chydlyniant i'r sector adfer mawndiroedd yng Nghymru, gan uno amrywiaeth o bartneriaid o dan faner Adfer Mawndir Cymru, gyda'r nod unedig o 'Natur Uwch Carbon Is'.
- Enillydd Gwobr Ôl Troed Carbon Tîm Cyfoeth 2022.
- Darparu ffocws ar gyfer sicrhau adnoddau i gefnogi SoDdGAau a gweithredu Polisi Cynllunio Cymru.
- Cynhyrchu geirfa ddwyieithog ar gyfer dros 100 o wahanol fathau o gamau adfer mawndir a gymhwysir gan y sector.
- Cynhyrchu methodoleg monitro canlyniadau ecolegol a chynllun monitro hydrolegol byw ar gyfer asesu ac adrodd ar effeithiolrwydd y Rhaglen.
- Ymgysylltu yn helaeth ac yn greadigol â'r cyhoedd drwy'r cyfryngau, ar y cyfryngau cymdeithasol drwy @PeatlandCymru, ar dudalen we'r Rhaglen, mewn digwyddiadau megis Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, ac ar ffurf dros 50 o glipiau fideo ar-lein, gan gynnwys y diweddaraf, sy'n egluro pwysigrwydd adfer mawndiroedd, yn 'Mawndiroedd: y da, y drwg, a'r tirfeddygon' ac animeiddiad o 'Stori Mawndir Cymru'.
- Cynrychioli Cymru yn y sector mawndiroedd yn ehangach, gan gynnwys yng nghynadleddau mawndiroedd yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn y DU , COP, Cymdeithas Gwyddor y Pridd Prydain, ac yn y Pafiliwn Mawndiroedd Rhithwir Byd-eang.
- Datblygu'r sector contractio, gyda 25 o gyflenwyr wedi'u penodi i ddau fframwaith caffael yn y ddwy flynedd gyntaf, a chynllunio parhaus ar gyfer uwchraddio â fframweithiau newydd i gynyddu capasiti a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yn y sector gwyrdd gwledig.


**Pam y sefydlwyd y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd:**

Dim ond 4% o Gymru sydd â phriddoedd mawn, er ein bod yn storio 30% o'n carbon tir. Amcangyfrifir bod 90% o fawndir Cymru wedi'i ddifrodi, ac yn y cyflwr hwn, mae'n rhyddhau nwyon tŷ gwydr niweidiol sy'n cyfrannu at newid hinsawdd. Mae mawndiroedd Cymru yn wahanol iawn o ran eu hamrywiaeth o gorsydd a ffeniau, a phan fyddant mewn cyflwr gwlyb iach maent yn gartref i fioamrywiaeth unigryw sydd o dan fygythiad.

Lluniwyd y Rhaglen ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn 2019 fel rhaglen genedlaethol i adfer mawndiroedd ledled Cymru. Roedd yn gydnabyddiaeth i'r cyfraniad mawr y mae mawndiroedd yn ei wneud o ran mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Deilliodd y Rhaglen o ganlyniad i ddegawdau o weithgarwch a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu rhai o'r enghreifftiau gorau sydd wedi goroesi o gynefinoedd mawndir yng Nghymru drwy eu dynodi, gydag ystod eang o bartneriaid, a gefnogwyd trwy sawl mecanwaith ariannu, yn ymgymryd â gwaith adfer a rheoli. Wedi i fynediad i gyllid LIFE yr UE ddod i ben, cydnabu Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yr angen am gydlynu cenedlaethol a chyllid craidd. Mae adfer mawndiroedd wedi profi i fod yn ateb effeithiol ar sail natur i fynd i'r afael â disbyddu natur, atafaelu carbon, allyriadau nwyon tŷ gwydr, rheoli dŵr, a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd. Dangosodd amcanion y Rhaglen, a nodwyd yn y Rhaglen Weithredu Pum Mlynedd gychwynnol, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu 2020-25 cysylltiedig, yr uchelgais am Raglen helaeth. Roedd y Rhaglen am weithredu dros gyfnod estynedig i fanteisio ar yr arbenigedd, y cwmpasu cenedlaethol, y galluoedd cenedlaethol, a'r pŵer ymgynnull y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu darparu.

# Y pum mlynedd gyntaf mewn ffigurau

**Crynodeb o wariant y RhWGF fesul blwyddyn ariannol**





| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | £276,000 | £351,100 | £362,130 | £192,900 | £347,949 | £1,254,079 |
| Cyfalaf | £1,402,000 | £1,717,000 | £2,031,650 | £3,113,130 | £3,467,523 | £10,329,303 |




**Crynodeb o Ha o weithgarwch adfer fesul mecanwaith ariannu**


| Blwyddyn Ariannol | Grant Cystadleuol | Caffael Uniongyrchol | Memorandwm Cytundeb | Cytundeb Rheoli Tir A16 | Cyllideb Strategol a Ddyrannwyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | 0 | 76 | 10 | 197 | 751 | 1035 |
| 2021/22 | 0 | 292 | 77 | 295 | 2339 | 3002 |
| 2022/23 | 0 | 119 | 0 | 186 | 3084 | 3389 |
| 2023/24 | 65 | 139 | 0 | 485 | 2548 | 3237 |
| 2024/25 | 38 | 151 | 0 | 209 | 2396 | 2794 |
| Cyfanswm | 103 | 777 | 87 | 1372 | 11118 | 13457 |

**Arwynebedd gweithgarwch adfer, mewn ha,**
**yn ôl math bras o weithgaredd**




| Arwynebedd gweithgaredd adfer | Cyfanswm Ha |
|---|---|
| Cyfanswm gweithgarwch* | 12,933 |
| Ôl-troed** | 11,672 |
| Mawndir ar lwybr adferiad *** | 3,600 |

Cyfrifir arwynebeddau yn unol â thempled nodyn canllaw PEAT001




**Nodyn**

*Cyfanswm arwynebedd y gweithgarwch ar gyfer 2020-2025 yw tua 12,933ha ac mae'n cynnwys elfen o gyfrif dwbl lle mae sawl gweithgaredd yn digwydd ar yr un darn o dir, h.y. rheoli coed ac adfer hydrolegol.

**Cyfanswm arwynebedd ôl troed yr holl weithgareddau o 2020-2025 yw tua 11,672ha. Mae arwynebedd ôl troed yn cyfrif am y cyfrif dwbl uchod (*) ac yn cynrychioli'r arwynebedd gwirioneddol o fawndir lle bu gwaith, gan ddileu gorgyffwrdd gweithgareddau lluosog ar yr un arwynebedd tir. Felly mae'n llai na chyfanswm yr holl weithgareddau adfer.

***Yr arwynebedd a adroddwyd ar gyfer 'mawndir ar y llwybr tuag at adferiad' yw 3,600ha ac mae'n is na chyfanswm yr ardaloedd gweithgarwch ac ôl troed oherwydd dim ond camau llwybr at adferiad i adfer prosesau naturiol mawndir y mae'n eu hystyried, gan gynnwys rheoli erydiad a hydroleg mawndir. Mae'r ffigurau hyn yn geidwadol, yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael ar adeg adrodd, hyd nes y bydd ansawdd y data GIS wedi'i sicrhau'n llawn a'i fod wedi'i gyhoeddi ar Borth Data Mawndir Cymru.

# 2. Gwerthusiad cyffredinol a chasgliadau

Dyrannwyd £11.6 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25) i fwrw ymlaen â'r gwaith o adfer mawndiroedd ledled Cymru, sy'n cynnwys 20 o bartneriaid allanol ac yn rhoi dros 3,600 hectar o fawndir ar lwybr tuag at adferiad. Mae asesiad manwl yn erbyn pob maes gwaith a nodwyd yng nghynllun gwreiddiol 2020 yn tystio i lwyddiant y Rhaglen o ran graddfa ac ansawdd y gwaith adfer a'r gwersi a wnaed ohono. Mae hefyd yn cadarnhau dilysrwydd dull sy'n canolbwyntio ar Raglen a gydlynir yn genedlaethol o dan arweiniad corff cyhoeddus sy'n atebol i Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Mae rôl Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn arwain y Rhaglen hon wedi golygu bod y Rhaglen wedi gallu manteisio ar yr ystod lawn o fecanweithiau ariannu sydd ar gael i CNC a hefyd defnyddio'r ystod eang o wasanaethau cymorth hanfodol sydd ag arbenigedd, capasiti, a chyrhaeddiad cenedlaethol.

Wrth edrych yn ôl, roedd yr ystod lawn o gamau gweithredu gwreiddiol yng nghynllun 2020 yn uchelgeisiol o'u hadolygu yn erbyn y dyraniad o adnoddau staff, targed adfer Llywodraeth Cymru, a'r ffaith y sefydlwyd rhaglen newydd sbon yn ystod blwyddyn y pandemig. Rhoddwyd blaenoriaeth i alluogi cyflawni adferiad, ymgysylltu, tystiolaeth, a chydlynu cenedlaethol wrth feithrin capasiti i ganiatáu i'r rhaglen dyfu yn y blynyddoedd i ddod. Bu Llywodraeth Cymru a CNC yn cydweithio'n agos i sicrhau bod y Rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawniad ac ar alluogi cyflawniad. Helpodd y nifer o grwpiau strategol a ffurfiwyd hefyd i fireinio'r dull gweithredu i alluogi adferiad dros y cyfnod o bum mlynedd, drwy ymgysylltu â chontractwyr, y grŵp ymarferwyr, grŵp partneriaid strategol, a grŵp goruchwylio Rhaglen Gyfalaf Argyfyngau Natur a Hinsawdd ar y cyd. Mae'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn amhrisiadwy, a phan gaiff hyn ei ystyried ynghyd â'r Adolygiad, bydd yn helpu i lunio, strwythuro a chanolbwyntio'r dull gweithredu yn y dyfodol i gyflawni'r ystod lawn o alluogwyr adfer ecosystemau mawndiroedd, a chanlyniadau strategol Llywodraeth Cymru a CNC.

Elfennau llwyddiant allweddol o brofiad cyflawni'r Rhaglen yn ystod y pum mlynedd gyntaf:

- **Cydberthynas gref a chynhyrchiol â staff comisiynu'r Rhaglen yn Llywodraeth Cymru**
  Mae'r berthynas gref a chynhyrchiol rhwng y ddau dîm wedi cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan dîm y Rhaglen, ac mae wedi golygu bod gan bob aelod o'r tîm ddealltwriaeth gref o nodau a chyfeiriad y Rhaglen. Mae'r diddordeb parhaus a chefnogol a ddangosodd Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen wedi chwarae rhan bwysig iawn yn ei llunio ac wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod polisi'n parhau i fod yn briodol, ac yn y pen draw, yn gyflawnadwy.

- **Dull gweithredu staff a thîm ymroddedig y Rhaglen**
  Datblygodd tîm y Rhaglen ddiben cryf ac unedig o'r cychwyn cyntaf, gan ganolbwyntio yn gyfan gwbl ar ddatblygu'r offer, y prosesau, y cysylltiadau, a'r arbenigedd sydd eu hangen i weithredu rhaglen adfer ar raddfa fawr. Ni ellid bod wedi cyflawni'r diben cyffredin hwn drwy ddefnyddio dull mwy 'cyffredinol' yng nghyd-destun strwythur tîm neu grŵp sy'n cyflawni sawl amcan, yn enwedig os yw'r amcanion hynny yn cynnwys dyletswyddau statudol. Roedd sawl aelod allweddol o staff, y tu allan i drefniant ariannu'r Rhaglen, hefyd yn ganolog i gyflawniad a llwyddiant pum mlynedd gyntaf y Rhaglen.

- **Gweithio mewn partneriaeth**
  Mae'r Rhaglen wedi llwyddo i fanteisio ar yr arbenigedd a'r profiad cyfunol ac enfawr sydd ar gael yn allanol ac yn fewnol. Yn allanol, fel cydweithrediad Adfer Mawndir Cymru, mae'r grwpiau partneriaeth strategol wedi bwydo i ddatblygiad a chyflawniad y Rhaglen. O fewn CNC, mae'r Rhaglen wedi gallu manteisio ar y cysylltiadau cenedlaethol a lleol cryf â phartneriaid, a gyrchwyd drwy arbenigwyr pwnc a phum tîm Pobl a Lleoedd CNC.

- **Ystod o fecanweithiau ariannu a mynediad at staff arbenigol ym mhob maes ariannu allweddol**
  Mae CNC mewn sefyllfa unigryw yn hyn o beth, gyda gallu sylweddol i ddyfarnu a rheoli grantiau, y defnydd o fecanwaith Adran 16 dylanwadol ac effeithiol iawn, y gallu i ddefnyddio Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ac offerynnau eraill, a'r cyfan wedi'u cefnogi gan dîm caffael cryf â phrosesau sydd wedi'u sefydlu. Neilltuodd timau grantiau a chaffael, yn benodol, lawer o amser staff ac arbenigedd i ddatblygu llwybrau ariannu yn eu priod feysydd a daeth pob un yn ymroddedig i nodau ac ethos y Rhaglen.

- **Llywodraethiant**
  Mae proses lywodraethu aeddfed CNC wedi'i chymhwyso i sicrhau cefnogaeth ac arweiniad ym mhob cam allweddol o'r Rhaglen, a thrwy wneud hynny, mae wedi paratoi'r ffordd ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol â swyddogaethau eraill CNC.

- **Cefnogaeth i feysydd swyddogaethol eraill o fewn CNC**
  Mae ystod a dyfnder gallu CNC wedi cael ei ddefnyddio ar draws pob agwedd o'r Rhaglen ac mae'n cynnwys rheolaeth ariannol a chyfrifeg, mewnbwn arbenigwyr pwnc grwpiau ecosystemau a rhywogaethau, rheolwyr tir, arweinwyr safleoedd timau amgylcheddol, aelodau timau Pobl a Lleoedd, rheoli contractau, trwyddedu rhywogaethau, asesu amgylcheddol, tirweddau hanesyddol, polisi a chyflawniad coedwigoedd, ac asiantaeth tir. Mae rôl CNC fel corff amgylcheddol integredig Cymru wedi rhoi'r gallu i'r Rhaglen fynd i'r afael â materion cymhleth sy'n torri ar draws meysydd gwahanol iawn o gylch gwaith CNC a'u datrys. Mae llwyddiant cyfunol y Rhaglen yn datblygu dull gweithredu ar gyfer mawn wedi'i goedwigo wedi bod yn destun llwyddiant allweddol yn y maes hwn, ynghyd â mewnbwn effeithiol y Rhaglen ar ffurf tystiolaeth a chyngor arbenigol i ddatblygu Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd.

## 3. Y camau nesaf

Yn dilyn gwerthusiad Llywodraeth Cymru o’r ddogfen Adolygiad Pum Mlynedd manwl, mae’r Rhaglen yn edrych ymlaen at gam nesaf datblygiad ac uwchraddiad y Rhaglen. Ar gyfer 2025/26, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies: “Ar gyfer y flwyddyn nesaf, ein chweched flwyddyn, rwyf wedi ymrwymo £5.2 miliwn ychwanegol i barhau ac adeiladu ar y gwaith gwych a gyflawnwyd hyd yn hyn, gan gynnwys cyfrannu at gyfleoedd swyddi gwyrdd yng Nghymru.”

I baratoi ar gyfer uwchraddio targedau, lansiwyd fframwaith wyth mlynedd ar gyfer contractwyr yn ystod haf 2025, ac mae’r Rhaglen wrthi’n recriwtio ar gyfer rolau strategol allweddol i ehangu arbenigedd a chapasiti.

